# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Tachwedd 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)401 - Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023**

(Tudalennau 1 - 2)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.2 SL(6)412 - Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023**

(Tudalennau 3 - 8)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 2 - Adroddiad drafft

LJC(6)-31-23 - Papur 3 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid

Hinsawdd, 7 Tachwedd 2023

LJC(6)-31-23 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 30 Hydref 2023

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.1 SL(6)396 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023**

(Tudalennau 9 - 13)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 5 - Adroddiad

LJC(6)-31-23 – Papur 6 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**3.2 SL(6)397 – Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 14 - 17)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 7 - Adroddiad

LJC(6)-31-23 – Papur 8 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.40 - 13.45)

**4.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 18 - 19)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 – Papur 9 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 8 Tachwedd 2023

**4.2 Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi: Cyfarfod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE**

(Tudalennau 20 - 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 10 - Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 9 Tachwedd 2023

## 5 Papurau i'w nodi

(13.45 - 13.50)

**5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Craffu ar waith y Gweinidogion**

(Tudalennau 22 - 26)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 11 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 7 Tachwedd 2023

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(13.50)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Gweithgaredd Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor): Adroddiad drafft

(13.50 - 14.05) (Tudalennau 27 - 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 12 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 8 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023

(14.05 - 14.15) (Tudalennau 38 - 41)

Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

[Rheoliadau]

[Memorandwm Esboniadol]

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 13 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 25 Hydref 2023

LJC(6)-31-23 - Papur 14 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 24 Hydref 2023

LJC(6)-31-23 - Papur 15 - Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 9 Y Bil Seilwaith (Cymru): Adroddiad drafft

(14.15 - 15.00) (To Follow)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 16 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig: Ystyried papur trafod

(15.00 - 15.20) (Tudalennau 42 - 62)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 17 - Papur Trafod [Saesneg yn unig]

## 11 Ymchwiliad Llywodraethiant y DU-UE: Trafod yr adroddiad drafft

(15.20 - 15.50) (Tudalennau 63 - 106)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-31-23 - Papur 18 - Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

# SL(6)401 - Gorchymyn Cymelldaliadau Athrawon Ysgol (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu nad yw cyfandaliadau a delir i athrawon ysgol yng Nghymru o dan y Fwrsariaeth i Gadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg yn cael eu trin fel tâl at ddiben adran 122(1) o Ddeddf Addysg 2002 ac felly nad ydynt yn ddarostyngedig i'r fframwaith tâl statudol ac nad ydynt yn bensiynadwy.

## Y weithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Gorchymyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Ni chynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â gwneud y Gorchymyn gan mai mater gweithdrefnol ydyw, i sicrhau bod y polisi'n cael yr effaith gyfreithiol a fwriedir, i ddarparu eglurder i weinyddwyr y gyflogres a gweinyddwyr cynlluniau pensiwn, ac i liniaru'r risg y bydd angen cyfraniadau pensiwn heb eu hariannu."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**8 Tachwedd 2023**

# SL(6)412 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") yn rhagnodi'r categorïau o bersonau o dramor sy'n gymwys neu'n anghymwys i gael dyraniad o lety tai a/neu gymorth tai a ddarperir gan awdurdodau lleol.

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau 2014 i estyn cymhwystra i'r rhai a oedd yn preswylio yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan neu Libanus yn union cyn 7 Hydref 2023, ac a adawodd Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan neu Libanus mewn cysylltiad ag ymosodiad terfysgol Hamas yn Israel ar 7 Hydref 2023 neu'r trais a ddatblygodd yn gyflym yn y rhanbarth yn dilyn yr ymosodiad.

Bydd personau o fewn y categori hwn sy'n wladolion Prydeinig, personau eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu nad ydynt yn cael eu trin felly), a'r rheini sydd â chaniatâd mewnfudo a hawl i arian cyhoeddus, yn gymwys i wneud cais am ddyraniad cymorth tai a/neu gymorth tai wrth gyrraedd Cymru.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 30 Hydref 2023, yn gofyn am gymorth y Pwyllgor i gyflymu'r gwaith o graffu ar y Rheoliadau, oherwydd eu brys.

Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd Ddatganiad Ysgrifenedig am y Rheoliadau ar 7 Tachwedd 2023.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae Adran 5 y Memorandwm Esboniadol yn rhoi'r esboniad a ganlyn:

> *Gan fod y sefyllfa wedi digwydd mor sydyn, a'r angen ymarferol i wneud yn siŵr y gall y rhai sydd wedi cyrraedd neu sy'n cyrraedd Cymru gael tai neu gymorth tai, rydym o'r farn y byddai'n anfanteisiol cynnal ymgynghoriad. Gan y bydd y Rheoliadau diwygio hefyd yn sicrhau canlyniadau sy'n ymwneud â pholisi (mewnfudo a lles) y Llywodraeth y DU a ddargedwir, ni fyddai modd cynnal ymgynghoriad ystyrlon ar ddulliau gweithredu amgen, gan mai effaith y Rheoliadau diwygio yw sicrhau cysondeb rhwng cyfraith tai Cymru a chyfraith mewnfudo/lles.*
>
> *Fodd bynnag, bydd awdurdodau lleol yn cael gwybod am y newid deddfwriaethol, ynghyd ag atodiad i'r Cod Cyfarwyddyd, er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o sut i gymhwyso'r ddeddfwriaeth newydd.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**9 Tachwedd 2023**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Dyrannu Drafft Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023** |
| **DYDDIAD** | **07 Tachwedd 2023** |
| **GAN** | **Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Mae'r sefyllfa yn Israel, y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan, a Libanus, yn parhau i fod yn beryglus ac ansicr, ac mae angen inni baratoi ar gyfer y senario go iawn y gallai fod angen i bobl ddianc neu adael y tiriogaethau hyn yr effeithir arnynt.

Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gwneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cymhwyso'r prawf preswylio arferol ar gyfer y rhai sy'n cael eu hachub i'r DU. Bydd y prawf preswylio arferol, sy'n atal rhywun sydd â hawl i ddod i mewn i'r DU rhag hawlio budd-daliadau yn syth ar ôl iddynt gyrraedd, ac sy'n gallu cymryd hyd at dri mis i'w gwblhau, yn cael ei ddatgymhwyso ar gyfer y rhai sydd wedi dianc rhag y gwrthdaro o'r tiriogaethau yr effeithir arnynt. Bydd datgymhwyso'r prawf preswylio arferol yn rhoi mynediad uniongyrchol i fudd-daliadau i'r rhai sy'n cyrraedd y DU, gan gynnwys cymorth tai a digartrefedd.

Mae angen i ni alinio cyfraith tai yng Nghymru â newid dull Llywodraeth y DU, fel y gall pobl sy'n dod i Gymru o'r tiriogaethau yr effeithir arnynt fod yn gymwys i wneud cais am dai cymdeithasol a chymorth digartrefedd. Felly, rwy'n bwriadu gosod Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 ("y Rheoliadau drafft"). Bydd hyn yn galluogi Dinasyddion Prydain, eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu a gaiff eu trin felly), ac unrhyw un sydd ag absenoldeb mewnfudo a hawl am arian cyhoeddus sy'n cael eu hachub o'r gwrthdaro i fod yn gymwys i gael tai cymdeithasol a chymorth tai lle mae ei angen arnynt.

Er nad ydym yn disgwyl y bydd nifer sylweddol o bobl yn cyrraedd Cymru ac angen cymorth o'r fath, mae'n rhaid i ni fod yn barod ar gyfer y rhai sy'n gwneud hynny. Felly, mae angen i ni wneud y newidiadau hyn i ddeddfwriaeth cyn gynted â phosibl. O ganlyniad, gosodwyd y Rheoliadau drafft heddiw i'w hystyried gan y Senedd ar 14 Tachwedd.

Oherwydd brys y sefyllfa ac er mwyn sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn cael eu paratoi, ynghyd â sicrwydd i'r rhai sy'n cyrraedd o’r tiriogaethau yr effeithir arnynt, rwyf wedi penderfynu cyflymu'r broses hon. Ysgrifennais at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ofyn am eu cymorth i ystyried y Rheoliadau ar frys ar 30 Hydref, er mwyn i Aelodau'r Senedd weld adroddiad y Pwyllgor cyn y ddadl ar 14 Tachwedd 2023.

Mae hon yn sefyllfa enbyd a phryderus, a hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor ac Aelodau'r Senedd am eu cefnogaeth ar y mater brys hwn.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/JJ/02801/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Hydref 2023

Annwyl Huw

Ysgrifennaf atoch ynghylch y gwrthdaro sy’n gwaethygu’n ddiweddar yn y Lan Orllewinol, Llain Gaza, Dwyrain Jerwsalem, Ucheldiroedd Golan (y cyfeirir atynt gyda’i gilydd isod fel Tiriogaethau Meddianedig Palesteina), Israel a Libanus. Rydym yn cysylltu â Llywodraeth y DU ar hyn o bryd i benderfynu a oes unrhyw fwriad i gynnal ymarferion achub. Fodd bynnag, yn y cyfamser mae angen i ni baratoi pe bai gwladolion Prydeinig yn y tiriogaethau yr effeithir arnynt yn dewis dychwelyd i'r DU.

Yn weithredol o 27 Hydref, mae Llywodraeth y DU wedi datgymhwyso’r prawf ‘preswylfa fel arfer’ a ddefnyddir i atal rhywun sydd â hawl i ddod i’r DU rhag hawlio budd-daliadau yn syth ar ôl iddynt gyrraedd) yn achos pobl benodol sy’n cael eu hachub rhag y trais yn Israel, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina neu Libanus.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgymhwyso’r prawf ‘preswylfa fel arfer’ ar gyfer gwladolion Prydeinig, eraill nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo (neu sy’n cael eu trin felly), ac unrhyw un a gafodd ei achub o’r gwrthdaro yn Israel, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina neu Libanus sydd â chaniatâd mewnfudo a hawl i gyllid cyhoeddus. Bydd datgymhwyso’r prawf hwn yn galluogi’r rhai sy’n cyrraedd o’r ardaloedd yr effeithir arnynt i gael mynediad at fudd-daliadau yn syth, gan gynnwys cymorth yng nghyswllt tai a digartrefedd.

Ar hyn o bryd, nid yw Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014 yn cynnwys unrhyw esemptiad rhag y prawf ‘preswylfa fel arfer’ i wladolion Prydeinig neu’r rhai nad ydynt yn ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo os ydynt hefyd am gael mynediad at gyllid cyhoeddus. Mae’r newidiadau hyn a wnaed gan Lywodraeth y DU yn gofyn am ymateb brys i sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru. Rwyf felly wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gymryd y camau sydd eu hangen fel bod newid deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn cael ei adlewyrchu yng Nghymru fel mater o frys.

Mae hynny’n angenrheidiol er mwyn cysoni’r rheolau tai yng Nghymru a chyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymru yn genedl noddfa. Fel y gwyddoch, byddai angen rhwng un a thri mis fel arfer er mwyn cwblhau’r broses hon, ond, o ystyried difrifoldeb y sefyllfa sy’n dod i’r amlwg, mae angen cyflymu’r broses.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2023 [“y Rheoliadau diwygio”] yn cael eu drafftio er mwyn sicrhau bod pobl y mae’r trais yn Israel, Tiriogaethau Meddianedig Palesteina neu Libanus wedi effeithio arnynt yn gymwys i gael gwasanaethau tai a digartrefedd yng Nghymru, ac maent yn hepgor y prawf ‘preswylfa fel arfer’. Bydd y Rheoliadau diwygio yn cael eu gosod gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl. Oherwydd natur frys y sefyllfa hon, byddwn yn ddiolchgar pe bai’r Pwyllgor yn ystyried y Rheoliadau diwygio yn gynnar ac yn darparu adroddiad brys arnynt mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn i ddigwydd ar 14 Tachwedd 2023.

Hoffwn ddiolch i’r Pwyllgor ymlaen llaw am ei gymorth a’i gefnogaeth mewn perthynas â’r trefniadau hyn, a fydd yn rhoi cyfle i bobl sy’n ffoi rhag y trais a’r gwrthdaro geisio cymorth yng nghyswllt tai neu ddigartrefedd yng Nghymru heb oedi diangen.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

# SL(6)396 – Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau ("y Gorchymyn") yn sefydlu cynlluniau masnachu ar gyfer Prydain Fawr.

Mae'r Gorchymyn yn ymdrin â phedwar cynllun masnachu a fydd yn gweithredu trwy gyfyngu ar nifer y cerbydau newydd nad ydynt yn ddi-allyriadau y gellir eu cofrestru ym Mhrydain, ac ar lefel yr allyriadau CO2 a ganiateir o gerbydau o'r fath, fel rhan o'r pontio i gerbydau di-allyriadau. Bydd y fframwaith polisi hwn yn cymryd lle Rheoliad Allyriadau CO2 Ceir a Faniau Newydd presennol y DU, a ddaw i ben ym Mhrydain Fawr ar ddiwrnod cychwyn y Gorchymyn hwn ond a gedwir yng Ngogledd Iwerddon am y tro.

Mae'r Nodyn Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn darparu y bydd y cynlluniau masnachu'n cyfyngu ar allyriadau CO2 sy'n deillio o gofrestru ceir a faniau newydd, neu'n annog cyfyngu arnynt, ac adlewyrchir y diben hwn hefyd yn erthygl 4(2) o'r Gorchymyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu y bydd y Gorchymyn yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau Cymru a nod Sero Net Cymru a'r Deyrnas Unedig.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, a Senedd yr Alban. Rhaid i'r drafft gael ei gymeradwyo gan bob un o'r deddfwrfeydd hynny cyn y gellir ei wneud gan Ei Fawrhydi.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 5 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, a Senedd yr Alban. Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn (ym mharagraff 2.2):

> *"Gan mai Senedd y DU fydd yn craffu ar y Gorchymyn, ni[d] ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol creu na gosod yr offeryn hwn yn ddwyieithog."*

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Diffinnir y term *"banked"* at ddibenion Penodau 1 a 3 o Ran 3 o'r Gorchymyn. Fodd bynnag, caiff ei ddefnyddio hefyd yn erthygl 77(l) ac (m) yng nghyd-destun *"banked CRTS allowances"* a *"banked VRTS allowances"* yn y drefn honno. Gan y ceir erthygl 77 yn Rhan 4 o'r Gorchymyn, nid yw'r diffiniad o *"banked"* yn estyn i'r darpariaethau hynny ac mae'r term yn parhau i fod heb ei ddiffinio at y diben hwnnw. Yn yr un modd ag y diffinnir *"CRTS allowance"* a *"VRTS allowance"* at ddibenion y Gorchymyn yn ei gyfanrwydd yn erthygl 3(1), gall fod wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r diffiniad o *"banked"* wedi ei estyn i Ran 4 neu i'r Gorchymyn cyfan.

3. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae'r ymadrodd *"relevant national authorities"* yn ymddangos yn erthygl 96(3) o'r Gorchymyn, a pharagraffau 3 a 5 o Atodlen 3 iddo. Mewn dau o'r achosion hyn, diffinnir yr ymadrodd mewn troednodyn fel ystyr fel y'i diffinnir yn adran 47 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Nid yw'n ymddangos bod rheswm amlwg dros gynnwys y diffiniad mewn troednodiadau, sy'n rhannau anweithredol o'r testun, yn hytrach nag yng nghorff y Gorchymyn ei hun, er enghraifft yn erthygl 3(1) (dehongli).

4. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae erthygl 110(16)(f) yn hepgor yr ymadrodd *"in domestic law or, as the case may be, as that Regulation has effect"* yn y ddau le y mae'n digwydd, o bwynt 1.2.4 yn Rhan A o Atodiad 3 i Reoliad (UE) 2019/631. Fodd bynnag, nid yw'r ymadrodd hwn yn ymddangos ym mhwynt 1.2.4. Nodir bod yr ymadrodd *"in domestic law and as that Regulation has effect"* yn ymddangos ym mhwynt 1.2.4 ar 3 achlysur ac mae'n bosibl mai dyma'r ymadrodd y bwriedir ei hepgor.

5. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae erthygl 110(16)(h) yn disodli'r ymadrodd *"light commercial vehicle"* ag *"NI light commercial vehicle"* ym mhwynt 2 yn Rhan A o Atodiad 3 i Reoliad (UE) 2019/631. Fodd bynnag, mae'r ymadrodd *"light commercial vehicle"* yn ymddangos ar ddau achlysur ym mhwynt 2 ac nid yw'n glir a fwriedir i erthygl 110(6)(h) newid un achos (ac, os felly, pa un) neu'r ddau achos.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd pwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ac eithrio mewn perthynas â phwynt 1.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023***

Mae’r Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (“y Gorchymyn”) yn Orchymyn ar gyfer Prydain Fawr gyfan ac fe’i drafftiwyd gan Lywodraeth y DU gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Llywodraeth y DU felly sydd wedi darparu’r ymateb canlynol i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad dyddiedig 30 Hydref 2023.

Pwynt Craffu Technegol 2:

Mae’r Pwyllgor yn gywir mai dim ond at ddibenion Penodau 1 a 3 o Ran 3 o’r Gorchymyn y mae’r termau hyn wedi eu diffinio, ac y byddai wedi bod yn well eu diffinio at ddibenion Rhan 4 hefyd. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU o’r farn y gallai unrhyw amheuaeth godi ynghylch yr hyn a olygir gan y termau hyn yng nghyd-destun erthygl 77, sy’n ymwneud â’r wybodaeth a gaiff ei rhoi i’r sawl sy’n cymryd rhan yn y cynlluniau masnachu am eu gweithgarwch ym mhob un o’r cynlluniau. Bydd rhwymedigaeth ar weinyddwr y cynlluniau (yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth) i baratoi a darparu’r wybodaeth o dan erthygl 77 a bydd yn ymwybodol iawn bod lwfansau CRTS a VRTS wedi eu bancio yn cymryd eu hystyr o’r Penodau perthnasol yn Rhan 3 o’r Gorchymyn. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried y gall canllawiau’r cynllun hefyd wneud hyn yn glir i’r sawl sy’n cymryd rhan yn y cynllun.

Pwynt Craffu Technegol 3:

Nid yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn gymwys i’r Gorchymyn (gweler adran 3 o’r Ddeddf honno). Mae Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i’r Gorchymyn. Mae adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978 yn darparu, pan fo Deddf yn rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth (sy’n cynnwys Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor -gweler adran 21), fod i ymadroddion a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth honno yr ystyr sydd iddynt yn y Ddeddf, oni bai bod y bwriad i’r gwrthwyneb yn ymddangos. Felly, nid yw Llywodraeth y DU fel arfer yn ailadrodd diffiniadau o’r fath yn nhestun offerynnau statudol, a byddai mewn perygl o gael ei beirniadu gan Gyd-bwyllgor Senedd y DU ar Offerynnau Statudol pe bai’n gwneud hynny.

Pwynt Craffu Technegol 4:

Mae'r Pwyllgor yn gywir yn y ddau achos. Fodd bynnag, i’r graddau na fyddai’r diwygiadau yr honnir eu bod wedi eu gwneud gan erthygl 106(16)(f) yn cael unrhyw effaith, ni fyddai cyfeiriad parhaus ym mhwynt 1.2.4 yn Rhan A o Atodiad 3 i Reoliad (EU) 2019/631 at y fersiwn ddomestig o Atodiad XXI i Reoliad (EU) 2017/1151 yn ogystal â fersiwn yr Undeb Ewropeaidd ohono yn broblematig. Mae hyn am fod pwynt 1 yn Rhan A o Atodiad 3 yn ymdrin â data manwl sydd i’w cofnodi a’u hadrodd

ynghylch cerbydau masnachol ysgafn yng Ngogledd Iwerddon. Mae pwynt 1.2.4 yn ymdrin ag adrodd ar allyriadau $CO_2$ cerbydau sylfaen penodol, sydd i'w cyfrifo gan ddefnyddio'r un dull â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer cymeradwyaeth math y DU (Gogledd Iwerddon) neu'r Undeb Ewropeaidd, yn ddarostyngedig i addasiadau penodol. Gan y byddai cymeradwyaeth math y DU (Gogledd Iwerddon) a'r Undeb Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddio fersiwn yr Undeb Ewropeaidd o Atodiad XXI i Reoliad (EU) 2017/1151, ni all fod unrhyw amheuaeth mai cyfundrefn yr Undeb Ewropeaidd ar gymeradwyaeth math yw'r un sy'n berthnasol at ddibenion y ddarpariaeth hon.

Pwynt Craffu Technegol 5:

Mae'r Pwyllgor yn gywir bod dau gyfeiriad at "light commercial vehicle" ym mhwynt 2 yn Rhan A o Atodiad 3 i Reoliad (EU) 2019/631, ac mae'r ddau yn ymwneud â cherbydau masnachol ysgafn yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae pwynt 2 yn cynnwys deunydd atodol yn unig ynghylch yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mhwynt 1, sef yr wybodaeth sydd i'w chasglu am gerbydau masnachol ysgafn yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n nodi o ble mae'r wybodaeth i'w chymryd a pha fàs sy'n berthnasol. Nid oes amheuaeth felly mai'r cerbydau masnachol ysgafn y cyfeirir atynt ym mhwynt 2 yw'r cerbydau masnachol ysgafn yng Ngogledd Iwerddon hynny y cyfeirir atynt ym mhwynt 1.

Eitem 3.2

# SL(6)397 – [Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023]

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diffinio'r hyn a olygir gan adeilad risg uwch at ddibenion adran 120I o Ddeddf Adeiladu 1984 (Deddf 1984), a fewnosododd Rhan 3 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 yn Neddf 1984. Mae hyn yn gwneud darpariaeth i adeiladau risg uwch fod yn ddarostyngedig i drefn reoleiddiol fanylach yn ystod y cyfnod dylunio ac adeiladu.

Mae rheoliad 3 yn diffinio adeilad risg uwch fel adeilad sydd naill ai o leiaf 18 metr o uchder neu sydd ag o leiaf 7 llawr, pan fo bob amser yn cynnwys o leiaf un uned breswyl neu pan fo'n ysbyty, yn gartref gofal neu'n gartref plant.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer mesur uchder adeilad.

Mae rheoliad 5 yn darparu ar gyfer cyfrifo nifer y lloriau mewn adeilad.

Mae rheoliad 6 yn darparu ar gyfer eithriadau i'r diffiniad o adeilad risg uwch. Ni fydd adeiladau o'r fath yn ddarostyngedig i'r drefn reoleiddiol fanylach.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, nid yw'n glir pam y mae diffiniad penodol o "annedd" wedi'i gynnwys, a pham mai dim ond at gynnwys fflat y mae'n cyfeirio'n uniongyrchol. Mae'r diffiniad o "uned breswyl" yn eang, ac mae'n cynnwys annedd neu "unrhyw uned llety byw arall…". Mae'n debygol y byddai fflat yn dod o fewn ystyr arferol aelod (a) o'r diffiniad fel "annedd" ac y byddai hefyd yn dod o fewn y diffiniad eang iawn o (b) "unrhyw uned llety byw arall…". O'r herwydd, gall y dewis i ddiffinio "annedd" i gynnwys fflat, ac yna diffinio "fflat" ei hun fel safle y caiff ei rannu'n llorweddol achosi dryswch i ddarllenydd. Mae'r diffiniadau yn ei gwneud yn aneglur beth allai

statws fflat deulawr neu annedd debyg fod, sy'n rhychwantu gwahanol loriau ac a allai fod â rhaniadau fertigol a llorweddol i ddarparu ar gyfer grisiau preifat er enghraifft. Yn ddiweddarach, mae'r darllenydd yn canfod y byddai "uned breswyl" yn debygol o gynnwys fflat deulawr beth bynnag. O'r herwydd, mae cynnwys y diffiniad o "annedd" a "fflat" yn gofyn am eglurhad pellach, gan fod ystyr i'r ddau sy'n hysbys mewn iaith gyffredin, nad yw'n ymddangos bod y rheoliadau'n dymuno gwyro oddi wrthynt. Mae'n ymddangos bod y diffiniad o "uned breswyl" wedi'i ddrafftio'n glir heb fod angen y diffiniadau ategol ychwanegol hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Yn rheoliad 2, mae i "lluoedd Ei Fawrhydi" yr un ystyr â "His Majesty's forces" yn Neddf y Lluoedd Arfog 2006. Ond nodir rhif yr adran berthnasol lle y gellir dod o hyd i'r term yn Neddf y Lluoedd Arfog 2006 yn nhroednodyn (3) ar dudalen 3. Mae hyn hefyd yn digwydd yn y diffiniad o "llu ar ymweliad" sydd â'r un ystyr ag y mae at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Lluoedd ar Ymweliad 1952. Ond nodir rhif yr adran berthnasol o'r Ddeddf honno yn nhroednodyn (2) ar dudalen 4. Nid yw'n ymddangos bod rheswm amlwg dros gynnwys rhifau'r adrannau perthnasol mewn troednodiadau, sy'n rhannau anweithredol o'r testun, yn hytrach nag yn y diffiniadau eu hunain.

Yn yr un modd, mae'r diffiniadau o "cartref gofal" a "cartref plant" yn cyfeirio at wasanaeth cartref gofal a gwasanaeth llety diogel o fewn yr ystyr a roddir yn Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Ond maent hefyd yn methu â nodi'r darpariaethau penodol pan fo'r telerau hynny'n cael eu diffinio a phan fo ystyr yn cael ei roi iddynt at ddibenion Rhan 1 yn y Ddeddf honno. Mae hyn hefyd yn digwydd yn y diffiniad o "ysbyty" wrth gyfeirio at "ysbyty annibynnol" o fewn ystyr Deddf Safonau Gofal 2000. Felly, rhaid i'r darllenydd chwilio'r Deddfau hynny i ddarganfod lle y ceir y termau ynddynt.

Byddai'n well cynnwys rhifau'r adrannau perthnasol yn y diffiniad ym mhob achos, er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddod o hyd i'r diffiniadau sy'n cael eu defnyddio yn yr offeryn hwn a'u deall.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth:** Rheoliadau Diogelwch Adeiladau (Disgrifiad o Adeilad Risg Uwch) (Cyfnod Dylunio ac Adeiladu) (Cymru) 2023

Pwynt Craffu Technegol 1:

Bydd y diffiniad o "adeilad risg uwch" yn rhyngweithio â deddfwriaeth arall, yn enwedig Deddf Adeiladu 1984 a Rheoliadau Adeiladu 2010, ond nid y rhain yn unig. Mae'r diffiniad o "fflat" ac "annedd" yn y rheoliadau drafft yn debyg i'r diffiniadau a ddefnyddir yn Rheoliadau Adeiladu 2010, a'r bwriad yw gwneud y diffiniad mor hygyrch â phosibl, yn enwedig i'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn rhyngweithio â'r rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gellid bod wedi drafftio'r rheoliadau mewn ffordd wahanol, ac ystyriwyd gwneud hynny yn wir, ond mae'n fodlon bod y drafftio yn cyflawni'r nod polisi, gan gynnwys mewn perthynas â fflatiau deulawr ac anheddau tebyg eraill h.y. eu bod yn perthyn i'r diffiniad o "uned breswyl" fel y'i diffinnir yn rheoliad 2.

Pwynt Craffu Technegol 2:

Derbynnir y gallai ffordd wahanol o ddrafftio'r rheoliadau fod wedi cynnwys cyfeiriadau mwy penodol. Fodd bynnag, ym marn Llywodraeth Cymru nid yw'r drafftio yn amwys, ac mae'n cyflawni'r bwriad polisi o gymhwyso ystyr priodol y termau diffiniedig at y diffiniad o "adeilad risg uwch". Fel y cyfryw, nid ystyrir bod angen diwygio'r drafftio.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau) (Diwygio) 2023** |
| **DYDDIAD** | **8 Tachwedd 2023** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

**Y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio:**

Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016

Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Mae'r OS hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn bosibl i Weinidog Swyddfa'r Cabinet arfer swyddogaethau y mae angen cydsyniad ymlaen llaw gan Weinidogion Cymru ar gyfer rhai ohonynt, a hynny mewn perthynas ag Awdurdodau Cymreig Datganoledig.

Byddai'r swyddogaethau hyn yn gyfystyr â swyddogaethau un ai Weinidog y Goron neu awdurdod cyhoeddus (Swyddfa'r Cabinet) at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a bydd hyn o'r herwydd yn ystyriaeth berthnasol o fewn cyd-destun cymhwysedd y Senedd i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

**Diben y diwygiadau**

Diben y diwygiadau yw adlewyrchu ymaelodi Gweriniaeth Gogledd Macedonia â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau ar 8 Tachwedd 2023.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol ategol, sy'n nodi effaith pob diwygiad, ar gael yma:

https://www.legislation.gov.uk/uksi/2023/1169/contents/made

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Ni nodwyd unrhyw faterion o'r fath.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith, ac yn cymhlethu'r llyfr statud yn ddiangen. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol bod Llywodraeth y DU yn deddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfarfod y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE – 11 Medi 2023** |
| **DYDDIAD** | **09 Tachwedd 2023** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi** |

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n hysbysu'r Aelodau fy mod wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 11 Medi 2023.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO). Hefyd yn bresennol roedd Angus Robertson MSP, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant. Roedd uwch swyddog o Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon yn bresennol fel arsylwr.

Cynhaliwyd y cyfarfod i baratoi ar gyfer yr ystod o gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE o fewn fframwaith y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a drefnwyd ar gyfer y misoedd sy'n weddill o 2023 a chyfarfod nesaf y DU-UE o'r Cyd-bwyllgor Cytundeb Ymadael (WAJC), y disgwylir iddo gael ei gynnal ddechrau 2024.

Roedd swyddogion wedi codi pryderon yn gynharach ar y rhybudd byr a roddwyd ar gyfer cyfarfodydd blaenorol a rydym yn falch fod hyn wedi'i ystyried wrth bennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod hwn.

Rhoddodd y cyfarfod gyfle defnyddiol i mi amlinellu nifer o faterion pwysig sydd gan Lywodraeth Cymru i'w datblygu yn ystod y misoedd nesaf. Er enghraifft:

- Ein pryderon cyffredinol o ran y Cytundeb Masnach a Chydweithredu (TCA) presennol a bod angen ei wneud mor effeithiol a phosibl.
- Gwerthfawrogiad y bydd y DU nawr yn dychwelyd i raglenni Horizon Europe a Copernicus.
- Pryder bod Llywodraeth y DU wedi penderfynu peidio â dychwelyd at Euratom a'r dewisiadau eraill y mae Llywodraeth y DU yn eu dilyn.

- Awydd Llywodraeth Cymru i weld datrysiad cynnar i'r problemau'n gysylltiedig â'r Rheolau Tarddiad ar gyfer cerbydau trydan.
- Ein pryderon ynghylch allforio molysgiaid dwygragennog byw.
- Yr angen i sicrhau masnach effeithiol mewn tatws hadyd.
- Yr angen i gynnal perthnasoedd effeithiol yn rhyngwladol i gadw gwytnwch yn ein system ynni trwy'r TCA i adeiladu sylfaen sefydlog ar gyfer mewnforio ac allforio ynni.
- Cysylltiad arbennig Cymru gyda Mecanwaith Addasu Ffiniau Carbon yr UE (CBAM) oherwydd ei diwydiant dur mawr.
- Pryder parhaus nad yw Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi cael eu gwahodd eto i fod yn rhan o ddirprwyaeth y DU ar gyfer cyfarfodydd WAJC.

Bydd cyfarfod dilynol y Cyd-bwyllgor i gael ei drefnu.

Nid yw'r cyfarfod nesaf o'r IMG ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi'i drefnu eto, ac nid oes unrhyw agenda wedi'i chytuno hyd yma.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/377/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

7 Tachwedd 2023

Annwyl Huw,

Yn dilyn fy ymddangsiad gerbron y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf a'n gohebiaeth wedi hynny, rwy’n amgáu copi o’m llythyr dyddiedig 12 Mai 2023 fel cafodd ei anfon at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol.

Cadarnheais hefyd (Cofnod y Trafodion 249) y byddwn yn rhannu gwybodaeth am welliannau i Filiau'r DU. Byddwch yn ymwybodol o'r heriau penodol sydd wedi bod ynghlwm wrth ddeddfwriaeth Senedd y DU dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys Deddf Cymru 2016, Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyhoeddi drafftiau deddfwriaethol i ddangos sut y gellid diwygio'r ddeddfwriaeth honno, neu sut y gellid mynd ati mewn ffordd wahanol, er mwyn parchu datganoli yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r rheini'n enghreifftiau o welliannau i ddeddfwriaeth sy'n cael eu derbyn a'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU ar ein rhan.

Er bod sefyllfaoedd lle mae swyddogion a chyfreithwyr Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar addasrwydd testun ym miliau’r DU, nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygiadau na darpariaethau drafft i'w cynnwys ym Miliau'r DU.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/141/2023

Rt. Hon. Michael Gove MP
Secretary of State for Levelling Up,
Housing and Communities and Minister for Intergovernmental Relations
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

psmichaelgove@levellingup.gov.uk

12 May 2023

Dear Michael,

I am writing further to our discussions at the most recent IMSC, and following the discussions between the First Minister and Prime Minister in Holyhead in March, to highlight key issues and areas of concern regarding the UK Legislative Programme. As the First Minister indicated to the Prime Minister, whilst there have been signs of improvements, the overall picture continues to be deeply concerning. I would ask, therefore, for your personal commitment to seek changes both to improve engagement and to ensure the positions of the Welsh Government and the Senedd are fully reflected in Bills across the UK Government's legislative programme.

As I have indicated to you previously, the disrespect shown for the Senedd's position during this Parliamentary session is shameful. Despite the concerns of the Welsh Government, and the lack of Senedd consent, the **Trade (Australia and New Zealand) Act 2023** has now received Royal Assent. You will be aware that the same concerns surrounding concurrent powers in that Bill also exist as regards the trade provisions in the **Procurement Bill**. This is all the more disappointing given the otherwise good collaboration we have had on that Bill. The Senedd withheld consent to the trade aspects of that Bill on 28 March.

In this Parliamentary session, the Senedd has also withheld consent in relation to the **Northern Ireland Protocol Bill**, and the **Genetic Technology (Precision Breeding) Act 2023**. Whilst the former will fall following the Windsor Agreement, there was no indication from UK Government in the passage of the Bill that the concerns of Welsh Government or the Senedd would lead to a change in the Bill's trajectory. The lack of consideration by the UK Government of the devolution implications of the Genetic Technology (Precision Breeding) Act 2023 is, contrasting starkly with the UK Government's stated intention to

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

respect devolution, and breaching the ways of working underpinning Common Frameworks to which the UK Government has committed.

We have consistently outlined to UK Government ministers our serious concerns around the **Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill** for well over a year now. The First Minister has specifically raised this Bill with the Prime Minister noting in particular the serious risks to devolved legislation arising from the sunsetting date and our opposition to the powers given to UK Government ministers in respect of devolved responsibilities. The issue of the sunsetting deadline could be largely resolved by the amendments to the Bill tabled by the UK Government ahead of Report Stage in the House of Lords but there has been no movement so far on the matter of the inclusion on the face of the Bill of a requirement to obtain the consent of the Welsh Ministers for the exercise of 'concurrent' powers by UK Government Ministers. As the First Minister has noted, achieving these outcomes would help ameliorate some of our worst difficulties with the Bill.

The above picture must also be considered amongst the backdrop of the last Parliamentary session, where the Senedd's position in relation to legislative consent was disregarded in relation to the **Professional Qualifications Act 2022**, the **Subsidy Control Act 2022**, the **Nationality and Borders Act 2022** and the **Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022**.

The Sewel Convention and s107(6) of the Government of Wales Act 2006 provide that Parliament will 'not normally' legislate without the consent of the Senedd. However, the growing set of examples outlined above shows the opposite approach – there is an increasing disregard for Senedd consent as the UK Government pursues its legislative programme. This clear lack of respect for the Sewel Convention and the devolution settlement is entirely unacceptable.

Unfortunately, looking ahead there are considerable issues presented by various other UK Bills. Whilst the Senedd has yet to reach a view on these Bills, it is clear that their contents are problematic and require significant change.

As you are aware, the existence of concurrent powers has been a major concern for the Senedd. I am therefore deeply concerned by the continued inclusion of such powers in the **Levelling-Up and Regeneration Bill**. The provision for the setting of levelling-up missions, associated metrics and targets and reporting on progress in Part 1 of that Bill also represents an inappropriate intrusion into the legislative competence of the Senedd. I understand that the Minister for Climate Change wrote to you with regards these concerns on 26 April. The Levelling Up White Paper, which set out the Levelling Up Missions, made significant commitments to be fully respectful of devolution settlements, recognising that this will require close and collaborative work, and the need for a process of *sustained and systematic engagement and consultation with …devolved administrations, on the White Paper*. However, these discussions, and in particular consultation on the twelve missions, did not materialise in the development of the Bill. We will be unable to recommend the Senedd give consent to this Bill in its current form and there is absolutely no case for these provisions to be retained in their application to Wales without Senedd consent.

Whilst consideration is ongoing, it is clear that there are also considerable devolution issues in the **Energy Bill**. These include (but are not limited to) the Offshore Wind Environmental Improvement Package clauses, as set out by the Minister for Climate Change to the Secretary of State for Energy Security and Net Zero on 29 March.

You will also be aware that we have laid Legislative Consent Memoranda for the **Strikes (Minimum Service Levels) Bill** and the **Illegal Migration Bill**. To date, the Senedd has considered the former and withheld its consent. Although our Governments are not in

agreement on the need for Senedd consent on those Bills, the legitimate interest of the Welsh Government and Senedd in both cannot be disputed - these Bills relate to issues of the utmost importance with significant impacts on devolved services and authorities – as you acknowledged at the last IMSC meeting and agreed to take forward action to address. It is deeply regrettable then, that these Bills were introduced without engagement; an all too common feature of your Government's approach to legislation. You will be aware of the Welsh Government's opposition to the **Bill of Rights**. Whilst the future of that Bill remains unclear, it is again a worrying example of poor engagement on incredibly important legislation, particularly given the consensus on the requirement for Senedd consent.

There are examples which show our Governments can work together effectively where commitments and responsibilities are respected. We have discussed and agreed principles of engagement at IMSC, which go to even the most basic matters such as the importance of sharing policy detail and drafting as early as possible. When those principles are adhered to, we are much more likely to reach consensus on legislation. The ongoing engagement and collaboration on the **Non-Domestic Rating Bill** is a positive example of this.

The **Social Housing (Regulation) Bill** was generally a positive example of inter-Governmental working until its final stages. On that point, I reiterate that the introduction of late-stage amendments (the day prior to the Senedd debate on consent) places significant difficulties on the legislative consent process and the Senedd's ability to consider provisions. It is deeply concerning that this Bill very nearly moved to Royal Assent without the consent of the Senedd being provided on all relevant amendments and I thank you for your interventions in ensuring that this did not take place.

Unfortunately, however, these principles of engagement have all too often been discarded.

The **Energy Prices Act 2022** was not shared with Welsh Government until the evening prior to introduction, and received Royal Assent just two weeks later. Whilst we appreciated the urgency around this Bill, and worked hard to support its smooth passage, the lack of meaningful engagement was entirely unreasonable and placed major limitations on the ability of both Welsh Government and the Senedd to consider the Act.

The **UK Infrastructure Bank Act 2023** was another promising example, where collaboration led to consensus. However, it remains disappointing that consensus was only reached through tireless negotiation, concluding only at the late stages of the Bill's passage. Early, effective engagement should ensure that devolution issues are addressed ahead of a Bill's introduction, not at the last moments under the pressures of Parliamentary timetabling.

Similar difficulties continue to be presented in more recently introduced Bills. Whilst conversations are ongoing in relation to the **Victims and Prisoners Bill** and the **Data Protection and Digital Information No.2 Bill** on matters relating to devolved representation, I see no reason why these issues could not have been suitably explored and resolved prior to introduction of these Bills. Attempting to address concerns throughout the passage of such Bills only hinders progress.

I was also left frustrated and deeply disappointed at UK Government's recent approach on the **Protection from Sex-based Harassment in Public Bill**. Whilst we were keen to ensure provision could be achieved for Wales, the urgent ultimatum for inclusion on that Bill was wholly unacceptable, and again emphasises the major obstacles presented with poor engagement.

We follow the principle that primary legislation in devolved areas should be enacted by the Senedd. However, we remain willing to work with the UK Government on its legislative programme and are committed to achieving outcomes where we can achieve beneficial

policy results whilst respecting devolution. We are unable to do this effectively whilst the UK Government continues to fail to adhere to the principles of engagement we have previously agreed to. These include continuous engagement to avoid ‘surprises’, notifying of legislative plans as soon as reasonably possible (and particularly where those plans would have an impact on the responsibilities of another), and early sharing of draft clauses. Regrettably, the above overview of our experiences does not demonstrate a commitment by UK Government to live up to these principles.

There are still many outstanding devolution issues in your legislative programme that are not yet beyond positive resolution. I would, therefore, once again ask you and your Ministerial colleagues to ensure that these considerations are taken seriously with a view to ensuring those resolutions can be reached and avoiding disagreements escalating further.

Where, however, ultimately the Senedd does not consent to a UK Government Bill, the UK Government needs to rediscover its respect for the devolution and reverse the position whereby breaches of the Sewel Convention have become the default.

I hope the above enables you to understand the deep concerns surrounding the UK Government’s legislative programme, from both the Welsh Government and the Senedd, and how significant improvements are readily achievable by the UK Government with a change in mindset and approach.

As specifically noted at IMSC, and given their urgency, I would ask that you address our concerns with the Levelling-Up and Regeneration Bill, and engage with relevant UK Government Ministers to ensure the devolved interests in the Retained EU Law Bill, the Minimum Service Levels Bill and the other Bills referenced in this letter are urgently addressed. I would also ask that you take steps to ensure that UK Government Ministers consistently apply the principles of engagement we have agreed at IMSC, across the entirety of the UK Government legislative programme.

I am copying this letter to the Cabinet Secretary for Constitution, External Affairs and Culture in the Scottish Government and to the head of the Northern Ireland Civil Service.

Yours sincerely,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

25 Hydref 2023

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi fy mod wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023, a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023.

Mae'r memorandwm hwn wedi'i osod y tu hwnt i ddyddiad cau arferol RhS 30A o dri diwrnod, am fod angen gwirio'r geiriad cymhleth a manwl yn yr offeryn.

Rwyf wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig, sydd i'w weld yma.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs, North Wales and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023** |
| **DYDDIAD** | **24 Hydref 2023** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Rwyf wedi gosod memorandwm cydsyniad offeryn statudol ("y memorandwm") mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygio Canlyniadol) 2023 ("y Rheoliadau"), a osodwyd gerbron y Senedd ar 16 Hydref 2023. Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol i wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol, y mae rhai ohonynt ar gyfer darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru ac sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Diben y Rheoliadau yw diweddaru cyfeiriadau, mewn deddfwriaeth sylfaenol bresennol a wnaed yn San Steffan, o "cyfraith yr UE a ddargedwir" i "cyfraith a gymathwyd" (a thermau cysylltiedig). Mae hyn yn adlewyrchu adran 5 o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

Rwyf wedi gosod y memorandwm yn unol â'r gofyniad o dan Reol Sefydlog 30A. Rwy'n ystyried bod y Rheoliadau yn offeryn statudol perthnasol gan eu bod yn gwneud darpariaethau o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd - darpariaethau nad ydynt yn rhai deilliadol, canlyniadol, trosiannol, darfodol, atodol nac arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Yn rhinwedd paragraff(au) vii, viii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon